

Pwyllgor Rhanbarth y De-orllewin SWWR-02-02(min)

COFNODION

Dyddiad: Dydd Gwener, 15 Mawrth 2002

Amser: 10.00 am hyd 12.50pm

Lleoliad: Neuadd y Glowyr, Rhydaman

Yn bresennol:

Aelodau

Rhodri Glyn Thomas
(Cadeirydd)

Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr

Peter Black

Gorllewin De Cymru

Cynog Dafis

Canolbarth a Gorllewin Cymru

Andrew Davies

Gorllewin Abertawe

Glyn Davies

Canolbarth a Gorllewin Cymru

Janet Davies

Gorllewin De Cymru

Delyth Evans

Canolbarth a Gorllewin Cymru

Edwina Hart

Gyr

Helen Mary Jones

Llanelli

Dai Lloyd

Gorllewin De Cymru

Cyflwynwyr:

Alun Davies

Cyfarwyddwr Addysg, Cyngor Sir Caerfyrddin

Mererid Hopwood

Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG)

Medwin Hughes

Pennaeth, Coleg y Drindod, Caerfyrddin

Mererid James

Ysgol Gyfun Bro Myrddin

Rhys Jones	Ysgol Gyfun Dyffryn Aman
Sarah Lewis	Ysgol y Gwendraeth
Rhian Lewis	Ysgol y Gwendraeth
Stuart Matthias	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Dysgu, Coleg Celf a Thechnoleg Sir Gâr
Sarah Phillips	Ysgol Gyfun Dyffryn Aman
Leila Salisbury	Ysgol Gyfun Bro Myrddin

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor

Jane Westlake	Clerc y Pwyllgor
Claire Morris	Dirprwy Glerc y Pwyllgor

Eitem 1: Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datganiadau o Fuddiant

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:

Nick Bourne	Canolbarth a Gorllewin Cymru
Richard Edwards	Preseli Sir Benfro
Brian Gibbons	Aberafan
Christine Gwyther	Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Val Lloyd	Dwyrain Abertawe
Gwenda Thomas	Castell-nedd

Eitem 2: Adolygiad Polisi o'r Iaith Gymraeg mewn Addysg

2.1 Amlinellodd Cynog Dafis, Cadeirydd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, y cefndir i'r adolygiad polisi y mae'r Pwyllgor hwnnw yn ymgymryd ag ef. Nod yr adolygiad oedd creu strategaeth i gwrdd â'r sialensiau a ddisgrifir yn nogfen cenhadaeth a gweledigaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg, sef:

- Cynyddu niferoedd y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg;
- Darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith;
- Newid arferion defnyddio'r iaith ac annog pobl i gymryd mantais o'r cyfleoedd a ddarperir; ac
- Atgyfnerthu'r Gymraeg fel iaith gymunedol.

Roedd y Pwyllgor wedi ymgynghori â mwy na 2,000 o sefydliadau, gan gynnwys ysgolion a sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Roedd nifer o sefydliadau eisoes wedi cyflwyno tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor a byddent hefyd yn derbyn cyngor arbenigol. Byddai'r Pwyllgor hefyd yn edrych ar brofiadau Canada a Gwlad y Basg. Roedd y dystiolaeth hyd yma wedi pwysleisio'r angen i gynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg gan fod y galw yn uwch na'r cyflenwad ar hyn o bryd a byddai'r Pwyllgor yn ystyried gwahanol fodelau darparu.

2.2 Gwnaeth Alun Davies, Cyfarwyddwr Addysg, Cyngor Sir Caerfyrddin, y pwyntiau canlynol:

- Roedd yr awdurdod wedi ymrwmo i ddatblygu'r iaith Gymraeg mewn ysgolion.
- Roedd cynllun addysg Gymraeg wedi ei sefydlu, ac roedd wedi ei dderbyn a'i adolygu gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.
- Roedd pob ysgol yn Sir Gaerfyrddin wedi ymrwmo i gynyddu nifer y pynciau sy'n cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Roedd yr awdurdod yn ceisio ymdrin â'r gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 drwy ei gynllun strategol.
- Roedd yna anawsterau o ran sicrhau darpariaeth gydradd o safbwynt addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cynradd gwledig bach. Roedd yr awdurdod wedi ymrwmo i wella safonau a thegwch ar draws y sir.

2.3 Mewn ymateb i sylwadau'r Aelodau, gwnaeth Alun Davies y pwyntiau ychwanegol isod:

- Roedd yna broblem gyda recriwtio athrawon yn gyffredinol, nid dim ond yn y cyfrwng Cymraeg. Nid oedd unrhyw brinder athrawon yn Sir Gaerfyrddin ar y pryd ac roedd yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr i sicrhau na fyddai hyn yn mynd yn broblem yn y dyfodol.
- Nid oedd ymchwil wedi ei gwneud i'r rhesymau am y gostyngiad rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3 yn nifer y disgyblion sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ond y gred oedd fod hynny i'w briodoli i resymau cymdeithasol neu i bwysau o du cyfoedion.
- Nid oedd yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth a gefnogai'r farn fod ysgolion cynradd gwledig, llai yn fwy ymroddedig i ddysgu'r Gymraeg nac yn fwy effeithiol yn hynny o beth nag unrhyw fath arall o ysgol. Yn wir, awgrymai tystiolaeth fod disgyblion mewn ysgolion mwy yn cyflawni

lawn cystal â'r rheini mewn ysgolion llai.

- Pe bai ysgol wledig yn cael ei chau am fod y nifer ar y gofrestr yn gostwng, byddid yn ymgynghori â'r gymuned leol ynglŷn â'r defnydd mwyaf effeithiol ohoni i hybu datblygiad y gymuned.
- Nid oedd unrhyw gynlluniau i ad-drefnu ysgolion o fewn y sir a fyddai'n newid eu categori.
- Câi ysgol categori A ei diffinio fel un lle mai'r Gymraeg yw prif iaith yr ysgol. Roedd hefyd yn cynnwys ysgolion lle darperir y rhan fwyaf o'r addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac roedd yr ysgolion hyn yn cael eu hannog i ddatblygu a dysgu rhagor o bynciau yn Gymraeg.

2.4 Gwnaeth Rhian Lewis a Sarah Lewis, disgyblion yn Ysgol y Gwendraeth, y pwyntiau canlynol:

- Roedd dwyieithrwydd yn bwysig iawn gan ei fod yn datblygu sgiliau personol ac yn ehangu cyfleoedd gwaith.
- Roedd gorfodi pobl ifanc i siarad Cymraeg yn yr Ysgol yn aml yn eu troi yn erbyn yr iaith ac roedd statws y Gymraeg a'r defnydd ohoni ymysg pobl ifanc yn gostwng.
- Ar lefel TGAU dylid gwahaniaethu rhwng Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith. Byddai hyn yn adlewyrchu gallu yn decach.
- Os oedd disgyblion yn bwriadu mynd i brifysgol yn Lloegr, ni ddylent gael eu gorfodi i wneud Safon Uwch drwy gyfrwng y Gymraeg lle gallai hynny fod yn anfantais iddynt.
- Gellid ailsefyll cymwysterau sgiliau allweddol hyd at bedair gwaith yn y Saesneg ond ddim ond unwaith yn y Gymraeg. Dylai'r un cyfleoedd fod ar gael yn y Gymraeg.
- Dylai cyrsiau Cymraeg fod ar gael i athrawon sydd am ddefnyddio'r iaith yn eu gwersi.

2.5 Gwnaeth Leila Salisbury a Mererid James, disgyblion yn Ysgol Gyfun Bro Myrddin, y pwyntiau canlynol:

- Roedd yna ddwy iaith mewn addysg ac roedd yn hanfodol fod hyn yn cael ei gydnabod.
- Dim ond chwarter y disgyblion sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, dylai pob pwnc gael ei ddysgu yn Gymraeg.
- Roedd y gallu i ddeall dwy iaith yn gwneud i blant feddwl yn fwy hyblyg.
- Dylid defnyddio'r Gymraeg mor aml â phosibl i wneud yn sir ei bod yn iaith naturiol i blant.
- Nid oes diben dysgu'r Gymraeg mewn ysgolion meithrin a chynradd os nad yw'n bosibl parhau â hyn drwy addysg uwchradd ac uwch.
- Nid baich yw dysgu drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg ond braint.
- Nid oedd addtsg cyfrwng Cymraeg yn amharu ar gyfleoedd cyflogaeth yn Lloegr.

2.6 Gwnaeth Sarah Phillips a Rhys Jones, disgyblion yn Ysgol Gyfun Dyffryn Aman, y pwyntiau canlynol:

- Nid yw Ysgol Gyfun Dyffryn Aman wedi ei dynodi'n ysgol ddwyieithog ond mae'n ymfalchïo yn ei dwyieithrwydd naturiol ac yn cynnig amrywiaeth o ddewisiadau i rieni a disgyblion o ran addysg ddwyieithog.
- Gallai disgyblion ddewis

- astudio pob pwnc, ar wahân i wyddoniaeth a mathemateg, drwy gyfrwng y Gymraeg; neu
 - astudio 40% o'u pynciau yn y Gymraeg; neu
 - astudio 12% o'u pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, fel iaith gyntaf neu ail iaith.
- Roedd yr ysgol yn darparu cyfleoedd i gymryd rhan yn ddwyieithog mewn gweithgareddau cymdeithasol ac allgyrsiol gan gynnwys cymryd rhan mewn cynhyrchiad ysgol Cymraeg a Saesneg ac yn yr eisteddfod flynyddol.

2.7 Mewn ymateb i sylwadau'r Aelodau, gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd yna nifer o glybiau a chymdeithasau sy'n galluogi pobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol. Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin yn darparu gwasanaeth cerddoriaeth rhagorol; darparai Aelwyd Myrddin gyfle i ddisgyblion ym mlynnyddoedd 7, 8 a 9 i gwrdd er nad oedd dim ar gael i ddisgyblion hn; ac roedd Menter Cwm Gwendraeth yn trefnu gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd yr Eisteddfod Genedlaethol hefyd yn cynnig cyfle i bobl ifanc ddatblygu a defnyddio'u sgiliau yn yr iaith Gymraeg.
- Roedd yn bwysig annog eraill a rhoi iddynt yr hyder i ddefnyddio'r Gymraeg; byddai hynny'n codi ymwybyddiaeth o'r iaith.
- Nid oedd llawer o werslyfrau ar gael yn y Gymraeg felly roedd llawer o amser dosbarth yn mynd ar gyfieithu o werslyfrau Saesneg.
- Dylai ysgolion gynnal gwersi Cymraeg i rieni di-Gymraeg er mwyn iddynt allu cymdeithasu â'u plant yn Gymraeg a'u helpu gyda gwaith ysgol.

2.8 Gwnaeth Mererid Hopwood, Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG) y pwyntiau canlynol:

- Roedd perygl i'r iaith gael ei cholli cyn i bobl sylweddoli ei gwir werth.
- Ar hyn o bryd, nid oedd addysg yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael yn Sir Gaerfyrddin. Dylai'r un cyfle i fanteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg fod ar gael i rieni a phlant yn y sir ac mewn rhannau eraill o Gymru.
- Er bod rhai rhieni yn credu na ellid dysgu gwyddoniaeth a mathemateg yn effeithiol yn Gymraeg nid oedd unrhyw dystiolaeth i gefnogi hyn, ac roedd hyn yn rhoi'r argraff i blant fod y Gymraeg rywsut yn eilradd i'r Saesneg.
- Os oedd yr iaith i ennill parch cydradd roedd angen iddi hawlio'i lle ym mhob maes ac agwedd o addysg.
- Roedd astudiaeth ddiweddar a wnaed gan ELWa wedi amlygu galw sylweddol o du cyflogwyr am sgiliau dwyieithog.
- Roedd angen datblygu addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector addysg uwch a phellach. Roedd angen yr hyder ar athrawon i ddysgu pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Roedd parhad y ddarpariaeth yn hynod bwysig er mwyn galluogi plant i symud ymlaen o addysg feithrin yr holl ffordd i'r brifysgol drwy gyfrwng y Gymraeg.

2.9 Mewn ymateb i sylwadau'r Aelodau, gwnaethpwyd y pwyntiau ychwanegol canlynol:

- Roedd yn naturiol i blant wrthryfela yn erbyn eu rhieni yng nghyd-destun addysg yn yr iaith Gymraeg. Nid oedd hyn yn debygol o achosi niwed parhaol os oeddent wedi'u trwytho'n dda yn yr iaith. Rôl addysg oedd rhoi i blant y sgiliau dwyieithog y mae eu hangen arnynt.
- Dylid annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, beth bynnag fo lefel eu medrusrwydd.

Eitem 3 : Sesiwn Drafod Agored

3.1 Rhoddwyd gwahoddiad i aelodau'r cyhoedd i roi cwestiynau a sylwadau i'r Pwyllgor. Byddai cwestiynau na ellid eu hateb yn y cyfarfod yn cael eu trosglwyddo i'r Gweinidog perthnasol i ddarparu ateb ysgrifenedig.

Dywedodd **Ffred Ffransis, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**, y dylai ACCAC adolygu'r cwricwlwm er mwyn i addysg fod yn fwy perthnasol i gymunedau a thynnodd sylw at bwysigrwydd ysgolion pentref i gynnal cymunedau Cymraeg eu hiaith, a hynny fel ysgolion ac fel cyfleuster i weddill y boblogaeth. Awgrymodd hefyd y dylid rhoi mwy o flaenoriaeth i addysg alwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dywedodd Cynog Dafis, Cadeirydd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, y byddai'r Mesur Addysg sy'n mynd drwy'r Senedd ar hyn o bryd yn trosglwyddo pwerau cynhwysfawr yng nghyswllt y cwricwlwm i'r Cynulliad, ac y byddai modd wedyn creu Cwricwlwm Cenedlaethol Cymreig yn ei gyfanrwydd.

Dywedodd **Aled Davies, Consortiwm Cymraeg i Oedolion Dyfed**, fod Cymraeg i Oedolion yn cael ei gyllido ar hyn o bryd drwy'r fformiwla cyllido addysg bellach, a seilir ar y niferoedd mewn dosbarthiadau, a bod hyn yn effeithio ar y gallu i gynnal cyrsiau mewn ardaloedd gwledig. Gofynnodd i'r Cynulliad ystyried symud tuag at lefel a strwythur cyllido a seilir ar yr angen i gynnal y lefel gwasanaethau sy'n angenrheidiol i alluogi Cymraeg i Oedolion i gyfrannu tuag at greu Cymru ddwyieithog.

Dywedodd **Heini Gruffudd, Darlithydd, Prifysgol Abertawe**, ei fod wedi bod â rhan mewn nifer o brosiectau ymchwil yn ymdrin â pharhad ieithyddol rhwng y sector cynradd a'r sector uwchradd yn Sir Gaerfyrddin. Un o'r canfyddiadau oedd bod tua 70-75% o'r disgyblion yn yr ysgolion cynradd sy'n gwasanaethu ysgolion uwchradd dwyieithog yn yr ardal yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf ac yn sefyll eu Tasgau a'u Profion Asesu Safonol (TASau) yn Gymraeg. Fodd bynnag, ar ôl trosglwyddo i addysg uwchradd, dim ond 30-35% o'r disgyblion hynny a âi ymlaen i astudio a sefyll rhai o'u pynciau drwy'r Gymraeg fel iaith gyntaf. Golygai hyn fod 40% yn cael eu colli rhwng addysg gynradd ac uwchradd.

Gofynnodd y Cadeirydd am i'r wybodaeth am y canfyddiadau hyn gael ei darparu i aelodau'r Pwyllgor.

Dyweddod **Kevin Campbell, Mentrau Iaith Myrddin**, fod yna ddiffyg parhad mewn addysg cyfrwng Cymraeg rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd a bod yna ostyngiad sylweddol yn nifer y plant sy'n astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf. Roedd yna hefyd ardaloedd yn Ninefwr a phen uchaf Dyffryn Aman lle nad oedd unrhyw addysg cyfrwng Cymraeg o fewn cyrraedd.

Cwynodd **William John** fod yr erthygl a'r lluniau o ddigwyddiadau Dydd Gyl Dewi mewn ysgolion lleol wedi ymddangos yn y South Wales Guardian yn Saesneg yn unig.

Dyweddod y Cadeirydd y byddai'n codi'r pwynt hwn gyda Golygydd y papur y tro nesaf iddo gwrdd ag ef.

Amlinellodd **Elin Davies, DYSG**, yr anawsterau y mae'r prosiect yn eu hwynebu am mai cyllid tymor byr yn unig sydd wedi'i roi iddo.

Dyweddod y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau fod y Cynulliad wedi ceisio sefydlu ffrydiau cyllido tair blynedd. Byddai'n codi'r mater gyda'r Gweinidog priodol ac yn ceisio canfod sut yn union yr oedd y prosiect wedi ei gyllido.

Dyweddod y Cyng Siân Thomas y dylai rhieni gael y dewis o addysgu eu plant drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig, y Saesneg yn unig neu gymysgedd o'r ddau. Yn Sir Gaerfyrddin, nid oedd plant yn cael y cyfle i gael addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg i'r graddau y byddai rhieni yn dymuno. Roedd angen rhagor o ddarpariaeth ar gyfer disgyblion nad ydynt am fynd i'r brifysgol er mwyn iddynt allu astudio yn y gymuned drwy gyfrwng y Gymraeg.

Eitem 4: Adolygiad Polisi o'r Iaith Gymraeg mewn Addysg

4.1 Gwnaeth Medwin Hughes, Pennaeth Coleg y Drindod, Caerfyrddin, y pwyntiau canlynol:

- O'r 1000 o athrawon dan hyfforddiant yng Nghymru dim ond 200 sy'n ymgymryd â'u hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Roedd yna bryder ynglŷn ag ansawdd yr athrawon dan hyfforddiant sy'n dod i mewn i'r proffesiwn ac awgrymwyd y dylid ystyried ymgyrch farchnata i ddenu siaradwyr Cymraeg i'r sector.
- Roedd angen modelau addysgu gwahanol i ddatblygu sgiliau, gan mai dim ond un coleg sy'n cynnig darpariaeth ddwyieithog ar hyn o bryd. Roedd yna angen hefyd am seilwaith i gefnogi athrawon dan hyfforddiant unwaith y maent wedi dechrau gweithio.
- Roedd yna brinder llyfrau a deunydd yn y Gymraeg, yn enwedig yn y sectorau addysg bellach a galwedigaethol, ac awgrymwyd y dylid sefydlu warws o ddeunyddiau ar gyfer addysg uwchradd ac uwch a phrifysgolion. Byddai Dr Hughes yn darparu cynllun busnes.

- Roedd angen mwy o atebolrwydd o safbwynt cyllid.
- Roedd angen i'r sectorau addysg uwchradd, uwch a phellach gydweithio a rhannu adnoddau er budd Cymru.

4.2 Gwnaeth Stuart Matthias, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Dysgu, Coleg Celf a Thechnoleg Sir Gâr, y pwyntiau canlynol:

- Roedd myfyrwyr sy'n cwblhau cyrsiau'n ddwyieithog yn cael eu cyflogi yn fwy cyflym.
- Roedd y coleg wedi ymrwymo i annog a hwyluso pob myfyriwr i weithio'n ddwyieithog, i ddatblygu addysg a hyfforddiant dwyieithog ac i ddatblygu sgiliau ieithyddol myfyrwyr, ac roedd tiwtoriaid Cymraeg eu hiaith yn cael eu darparu lle'r oedd angen hynny.
- Roedd y galw am gyrsiau galwedigaethol yn cynyddu ac roedd y cyfle yn cael ei gynnig i fyfyrwyr i gymryd rhan yn eu cwrs yn ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond prin oedd y rhai a fanteisiai ar hynny.
- Roedd cefnogaeth y corff llywodraethu a'r tîm rheoli yn ffactor pwysig yn natblygiad dwyieithrwydd mewn coleg.

4.3 Mewn ymateb i sylwadau'r aelodau, dywedodd Stuart Matthias:

- Roedd 243 o gyrsiau ar gael yng Ngholeg Celf a Thechnoleg Sir Gâr ond dim ond 16% o'r staff oedd a'r gallu ieithyddol llawn i gyflwyno cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg, ac awgrymwyd y dylid cylch-amddiffyn adnoddau ar gyfer datblygu sgiliau ieithyddol y staff ymhellach.
- Roedd strategaeth yn cael ei datblygu i greu partneriaethau cydweithredol gydag ysgolion lleol ond roedd y ffaith fod yr ysgolion wedi mabwysiadu amserlen pythefnos yn gwneud hyn yn fwy anodd.

4.4 Gwnaeth Medwin Hughes y sylwadau ychwanegol canlynol hefyd:

- Roedd yna ddiffyg cyd-destun o fewn Addysg Bellach yng Nghymru ar gyfer datblygu dwyieithrwydd.
- Roedd llawer iawn o gyllid yn cael ei wario ar ddarparu gwasanaethau dwyieithog ac roedd yn bwysig fod y defnydd o'r arian yn cael ei fonitro a'i werthuso.
- Nid oedd cael asiantaethau gwahanol megis Sgiliaith a Dysg yn cyflawni'r un swyddogaeth yn effeithlon. Dylid dod â nhw i gyd at ei gilydd.

Eitem 5: Cofnodion y cyfarfod diwethaf (25 Ionawr 2002)

Papur: SWWR-01-02(min)

5.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

Eitem 6: Dyddiad y cyfarfod nesaf

6.1 Câi'r cyfarfod nesaf ei gynnal ar 24 Mai 2002 yn Sir Benfro (y lleoliad i'w gadarnhau), pryd y byddai'r Pwyllgor yn trafod materion anabledd ac adolygiad ynni y Pwyllgor Datblygu Economaidd.